# Profion cyflym ar gyfer heintiau streptococaidd grŵp A mewn pobl â dolur gwddf

13 Tachwedd 2019

Mae NICE wedi asesu 21 o brofion cyflym i ganfod heintiau streptococaidd grŵp A (strep A) mewn pobl â dolur gwddf er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn. Gellid defnyddio'r profion hyn er mwyn helpu meddygon i benderfynu a ddylid cynnig gwrthfiotigau i bobl â dolur gwddf a allai gael budd ohonynt.

Mae NICE wedi dweud nad yw'r profion yn cael eu hargymell, a hynny am ei bod yn annhebygol y byddai'r profion yn helpu pobl â dolur gwddf i wella'n gyflymach neu'n lleihau'r risg o gymhlethdodau. Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith y byddai defnyddio'r profion yn gwella arferion rhagnodi gwrthfiotigau.

ISBN: 978-1-4731-3583-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.